YSGOL BRYNREFAIL

GWEITHDY MENTER BLWYDDYN 12

Ar 15fed Medi 2010 bu Gyrfa Cymru ym Mrynrefail i weithio gyda blwyddyn 12. Diben y diwrnod oedd codi ymwybyddiaeth y myfyrwyr o fyd busnes a menter.

Bu nifer o weithdai yn ystod y diwrnod a bu raid ffurfio cwmnïoedd i gyd weithio trwy gydol y dydd gyda'r nôd o greu cynnyrch o safon uchel a gallu cystadlu gyda chwmnïoedd eraill er gwneud elw gyda chyfyngiadau llym o ran amser a safonau.

Dywedodd David Williams, a oedd yn Rheolydd Cyllid gydag un o'r cwmnïau " Mae'r diwrnod wedi helpu gyda'r hyder i gyd - weithio gyda phobl eraill a sut i weithio gydag eraill ym myd masnach".